

Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Monitro Annibynnol yn CEF Brynbuga a CEF Prescoed

**Ar gyfer y flwyddyn adrodd
1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025**

Cyhoeddwyd Chwefror 2026



Cynnwys

Adrannau rhagarweiniol 1 – 3

Tudalen

1.	Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol	3
2.	Disgrifiad o'r sefydliad	4
3.	Pwyntiau allweddol	5

Adrannau tystiolaeth 4 – 7

4.	Diogelwch	11
5.	Triniaeth deg a dyngarol	13
6.	Iechyd a llesiant	18
7.	Cynnydd ac ailsefydlu	23

Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol

Ystadegau'r Bwrdd	26
Ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol	26

Atodiad A

Darparwyr gwasanaethau	28
------------------------	----

Atodiad B

Ystadegau ar hunan-niweidio, ACCT (Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm) ac ymosodiadau	29
--	----

Cyhoeddir pob adroddiad blynyddol y Bwrdd Monitro Blynyddol ar
www.imb.org.uk

Adrannau rhagarweiniol 1 – 3

1. Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol

Mae Deddf Carchardai 1952 yn mynnu bod pob carchar yn cael ei fonitro gan fwrdd annibynnol, wedi'i benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol, o blith aelodau o'r gymuned lle mae'r carchar wedi'i leoli.

O dan y Fframwaith Monitro Cenedlaethol y cytunwyd arno gyda gweinidogion, mae'n ofynnol i'r Bwrdd wneud y canlynol:

- bodloni ei hun bod y rhai yn nalfa'r carchar yn cael eu trin yn ddyngarol ac yn gyfiawn, a bod y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau yn amrywiol ac yn ddigonol
- rhoi gwybod yn brydlon i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu i unrhyw swyddog y mae awdurdod wedi'i ddirprwyo iddo fel y mae'n ei ystyried yn briodol, am unrhyw bryder sydd ganddo
- cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ba mor dda y mae'r carchar wedi bodloni'r safonau a'r gofynion a osodwyd arno, a pha effaith mae'r rhain yn eu cael ar y rhai yn ei ddalfa.

I alluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol, mae gan ei aelodau hawl mynediad at bob carcharor a phob rhan o'r carchar, ac at gofnodion y carchar.

Mae'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a math arall o Driniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT) yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol sydd wedi'i lunio i gryfhau gwarchodaeth i bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid. Mae'r protocol yn cydnabod bod pobl o'r fath yn arbennig o agored i niwed a'i nod yw ceisio eu hatal rhag cael eu trin yn wael drwy sefydlu system o ymweliadau neu arolygiadau ar gyfer pob dalffa. Mae OPCAT yn mynnu bod Gwladwriaethau'n dynodi Mekanwaith Atal Cenedlaethol i gynnal ymweliadau â dalfeydd, i fonitro'r driniaeth a'r amodau ar gyfer carcharorion ac i wneud argymhellion i atal pobl rhag cael eu trin yn wael. Mae'r Bwrdd yn rhan o Fecanweithiau Atal Cenedlaethol y Deyrnas Unedig.

2. Disgrifiad o'r sefydliad

Mae CEF Brynbuga a Prescoed yn ddau garchar sector cyhoeddus wedi'u lleoli yn nhref Brynbuga a'r cyffiniau yn ne-ddwyrain Cymru. Maen nhw'n cael eu rheoli gan un Llywodraethwr, gyda chefnogaeth uwch dîm rheoli.

- Mae CEF Brynbuga yn garchar categori C (sy'n dal y rhai hynny na ellir ymddiried ynddynt mewn amodau agored ond yr ystyrir eu bod yn annhebygol o wneud ymgais benderfynol i ddianc) ar gyfer 276¹ o garcharorion
- Mae CEF Prescoed yn garchar agored categori D (ar gyfer y rhai hynny yr aseswyd eu bod yn peri risg isel i'r cyhoedd ac yr ymddiriedir ynddynt i beidio â dianc) ar gyfer 260 o garcharorion.
- Mae Canolfan Hyfforddi Fferm Cilwrgi yn galluogi carcharorion o Brescoed i weithio a chael hyfforddiant mewn amaethyddiaeth ac amrywiaeth o weithgareddau diwydiannol eraill.

2.1 Agorodd CEF Brynbuga yn 1844. Mae wedi'i leoli yn y dref, ac mae ganddo dair prif adain sy'n ymestyn allan o bwynt rheoli canolog. Mae'r rhain bellach yn gartref i garcharorion agored i niwed, gyda'r rhan fwyaf wedi'u cael yn euog o droseddau rhywiol (PCoSOs), ac mae dros 40% ohonynt dros 50 oed.

Mae'r drefn wedi'i chynllunio i baratoi carcharorion ar gyfer eu rhyddhau'n ddiogel a lleihau'r risg y byddant yn aildroseddu. Darperir rhaglenni arbenigol i drin troseddwyr rhyw (Horizon, Kaizen a Becoming New Me) ar gyfer PCoSOs. Mae adran addysg sydd, yn ogystal â chynnig sgiliau academiaidd sylfaenol, yn darparu cyrsiau mewn gwaith coed a rheoli gwastraff.

2.2 Nod CEF Prescoed yw galluogi carcharorion, yn rhannau olaf eu dedfrydau, i ailintegreiddio i'r gymuned cyn cael eu rhyddhau. Mae cyflogaeth y tu allan i'r carchar yn cael ei annog. Cynigir amrywiaeth o addysg a hyfforddiant galwedigaethol drwy leoliadau gwaith ar y safle a hyfforddiant ar y safle. Mae hyn yn cynnwys rheoli gwastraff, gosod brics, gwaith toi, garddwriaeth, arlwyio a lletygarwch.

2.3 Mae Canolfan Hyfforddi Fferm Cilwrgi yn uned loeren ar fferm weithredol, sy'n galluogi carcharorion o Brescoed i weithio a chael hyfforddiant mewn amaethyddiaeth, godro robotig, gweithredu peiriannau fferm, gyrru wagen fforch godi a wrysau; mae hyn wedi cael ei ehangu'n ddiweddar i gynnwys cynnal a chadw rheilffyrdd a thraciau. Mae hyn yn bwysig oherwydd gall y galwedigaethau hyn ddarparu cyflogaeth gymharol ddiogel sy'n talu'n dda ar ôl cael eu rhyddhau. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r Bwrdd wedi cael gwybod gan staff nad yw hyfforddiant cledrau rheilffyrdd wedi manteisio i'r eithaf ar ei botensial, oherwydd diffyg hyfforddwyr. Cafwyd ymateb da i'r cwrs wagen fforch godi a pheiriannau fferm pan oedd ar gael.

¹ Mae'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn wybodaeth reoli leol. Maent yn adlewyrchu sefyllfa'r carchar adeg adrodd, ond gallant newid yn dilyn dilysu pellach ac felly efallai na fyddant bob amser yn gyson ag Ystadegau Swyddogol a gyhoeddwyd yn ddiweddarach gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

3. Pwyntiau allweddol

3.1 Prif ganfyddiadau

Mae'r Bwrdd o'r farn bod y carchardai'n cael eu rheoli'n dda gan yr uwch dîm rheoli, gydag arweinyddiaeth a gweledigaeth gref gan y Llywodraethwr Llywodraethu. Mae hyn yn sicrhau'r cyfleoedd a'r canlyniadau cadarnhaol gorau posibl i garcharorion.

Mae'r Bwrdd yn cwrdd â'r Llywodraethwr (neu ddirprwy pan nad yw ar gael) bob mis ac yn codi unrhyw bryderon a materion er mwyn cael eglurhad. Ymatebir i'r rhain, eu trafod a gweithredu arnynt, lle mae'r Llywodraethwr yn teimlo ei bod yn briodol gwneud hynny.

Diogelwch

- Mae carcharorion yn rhoi gwybod i'r Bwrdd eu bod yn teimlo'n ddiogel. Yn CEF Brynbuga, mae carcharorion yn siarad am y teimlad cymunedol cryf. Mae ymosodiadau gan garcharorion ar garcharorion eraill, bwlio a lefelau hunan-niweidio yn parhau i fod yn isel. Nid oes unrhyw ddigwyddiadau difrifol wedi bod yn ystod y cyfnod adrodd. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd wedi nodi bod adroddiadau o fwlio yn erbyn y boblogaeth PCoSO yn CEF Prescoed.
- Mae'r Bwrdd wedi sylwi bod staff yn gydwybodol wrth ddilyn y prosesau sy'n gysylltiedig â dogfennau asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT), sydd wedi'u cynllunio i gefnogi carcharorion yr ystyrir eu bod mewn perygl o hunanladdiad neu hunan-niweidio. Mae nifer yr ACCT a godwyd wedi gostwng yn sylweddol yn CEF Brynbuga, o 48 yn y flwyddyn adrodd ddiwethaf i wyth eleni.
- Roedd y defnydd o rym yn arbennig o isel, gyda phum digwyddiad ym Mrynbuga a thri ym Mhrescoed. Mae hyn yn cyd-fynd â sylw'r Bwrdd bod y berthynas rhwng swyddogion a charcharorion yn dda ar y cyfan. Nid yw PAVA (chwistrell analluogi) erioed wedi cael ei defnyddio yn y naill sefydliad na'r llall.
- Roedd y defnydd o sylweddau anghyfreithlon yn y ddau safle yn isel, ond mae problemau o hyd gyda charcharorion yn cyfnewid meddyginiaeth ar bresgripsiwn. Mae polisi dim goddefgarwch ar gyfer profi'n bositif am gyffuriau Dosbarth A a Dosbarth B wedi cael ei gyflwyno; yn y flwyddyn adrodd flaenorol, roedd yn berthnasol i Ddosbarth B yn unig.

Triniaeth deg a dyngarol

- Mae'r Bwrdd yn nodi y gwneir y mwyaf o amser allan o'r gell a gweithgareddau awyr agored, gyda charcharorion yn CEF Brynbuga yn cael 10 awr allan o'u celloedd yn ystod yr wythnos a thua wyth awr bob dydd ar benwythnosau.
- Mae'r Bwrdd yn parhau i arsylwi ar gysylltiadau cynhyrchiol a chadarnhaol rhwng staff a charcharorion ac mae'n nodi'r ymdrechion a wnaed i gefnogi carcharorion sydd â nodweddion gwarchodedig (sy'n cynnwys, ymysg eraill, hil, crefydd, oedran, anabledd, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol), fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- Mae CEF Brynbuga yn garchar Fictoraidd ond, er gwaethaf yr anfantais hon, mae'r Bwrdd yn nodi bod y canlyniadau i garcharorion yn dda ar y cyfan. Er bod gan y rhan fwyaf o gelloedd ddau ddyn mewn sefyllfaoedd a ddyluniwyd yn y lle cyntaf ar gyfer un, maent yn byw mewn amgylchedd gweddus a

chefnogol. Os asesir bod angen un gell ar garcharorion, mae hyn yn tueddu i gael ei darparu ar ei gyfer. Mae rhaglen adnewyddu celloedd wedi'i chwblhau yn ystod y flwyddyn adrodd, sydd wedi gwella amodau byw ym marn y Bwrdd, ac mae'r carcharorion wedi'i gwerthfawrogi.

- Agorwyd CEF Prescoed ychydig cyn yr Ail Ryfel Byd. Mae'n garchar agored, gyda blociau llety sy'n amrywio rhwng deiliadaeth sengl neu ddwbl o ran celloedd. Mae'r blociau llety'n weithredol, er bod rhai mewn cyflwr llai na delfrydol. Yn gyffredinol, mae glendid yn foddhaol, ond mae carcharorion yn dweud nad oes digon o ddeunyddiau glanhau. Dim ond hyn a hyn o gyfleusterau ar gyfer paratoi bwyd sydd ar gael. Mae'r Bwrdd yn croesawu'r gwelliannau parhaus o ran peintio ac adnewyddu ac uwchraddio'r ceginau.

Iechyd a llesiant

- O arsylwadau'r Bwrdd, mae anghenion iechyd a llesiant y carcharorion yn cael eu hasesu a'u diwallu'n briodol, gyda charcharorion yn gadarnhaol iawn am y gofal maen nhw'n ei gael a diwylliant anfeirniadol y staff iechyd.
- Mae'r Bwrdd yn bryderus bod y lefel ofynnol o staffio o ran iechyd meddwl wedi cael ei adolygu yn ystod y flwyddyn adrodd ond heb ei gynyddu. Roedd apwyntiad ffisiotherapydd wedi'i gynllunio ond cafodd ei dynnu'n ôl gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Chyngor Sir Fynwy.
- Mae'r Bwrdd yn nodi'r nifer cynyddol o garcharorion hŷn sydd ag anghenion penodol sy'n ymwneud â symudedd cyffredinol. Mae'r Bwrdd yn llwyr gefnogi'r gwaith o ad-drefnu llety arfaethedig yr Uwch Dîm Rheoli yn CEF Prescoed i gefnogi'r carcharorion hyn yn yr amgylchedd mwyaf priodol.
- Mae'r Bwrdd wedi nodi'r effaith ar staffio oherwydd cynnydd yn nifer y carcharorion sy'n cael eu trosglwyddo i'r ysbyty, fel cleifion mewnol ac fel cleifion allanol. Oherwydd natur frys yr ymweliadau hyn, mae'r effaith ar nifer y swyddogion sydd ar gael bob dydd wedi arwain at ostyngiad mewn amser allan o'r gell ar gyfer y carcharorion yn CEF Brynbuga.

Cynnydd ac adsefydlu

- O arsylwadau'r Bwrdd, mae CEF Prescoed wedi parhau i fod yn llwyddiannus o ran cynnig lleoliadau gwaith i garcharorion, er bod y dasg hon yn dod yn fwy heriol. Mae'r Bwrdd hefyd yn gwerthfawrogi'n fawr y rôl hanfodol y mae'r arweinwyr cyflogaeth yn ei chwarae.
- Mae'r Bwrdd yn poeni am nifer fach o garcharorion yn cael eu rhyddhau heb lety priodol, er gwaethaf ymdrechion gorau'r carchar.
- Mae'r Bwrdd yn nodi'r amser cynyddol y mae'n ei gymryd i gytuno ar ryddhau carcharorion ar drwydded dros dro ar ôl iddynt gael eu rhoi yn CEF Prescoed. Rydym yn cydnabod y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig ond rydym yn falch o weld bod yr ystad agored yn archwilio dulliau newydd a chreadigol i helpu i leihau'r amser cyffredinol. Y gyfradd lwyddiant ar gyfer y rhai sy'n cael eu rhyddhau ar drwydded dros dro yw 99.68% ar gyfer rhyddhau yn ystod y dydd a'r nos.
- Mae cyfres o hyfforddiant ac addysg yn cynnig cyfuniad cyflawn o feithrin sgiliau hanfodol mewn llythrennedd a rhifedd, ynghyd â phrofiadau ymarferol megis gwaith fferm, arlwy, gwaith coed a rheoli gwastraff. Mae'r rhain hefyd yn darparu llwybrau at raglenni achrededig megis cymwysterau galwedigaethol cenedlaethol (NVQ).

3.2 Prif feysydd datblygu

I'R GWEINIDOG

- Mae'r Bwrdd wedi gweld cynnydd yn nifer y carcharorion sydd wedi'u carcharu er mwyn diogelu'r cyhoedd (IPP), o 10 i 11 ar draws y ddau garchar. Rydym yn dal yn bryderus am y diffyg ail-gategoreiddio carcharorion IPP a lefel y galw yn ôl. Pa gamau penodol y bydd y Gweinidog yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn a gwella canlyniadau i garcharorion IPP?
- Mae'r Bwrdd yn bryderus am y cynnydd yn nifer y carcharorion sydd â symudedd cyfyngedig ac anableddau eraill. Er ein bod yn cydnabod y cymorth a ddarperir gan yr Uwch Dîm Rheoli a'r gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys darparu cymhorthion, mae pryderon o hyd ynghylch mynediad a ddarperir gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF at ofal cymdeithasol personol, yn enwedig i garcharorion sy'n fregus neu'n wynebu anawsterau symudedd a gwybyddol. Pa gamau pendant y bydd y Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod y carcharorion hyn yn cael gofal cymdeithasol amserol a digonol, a sut y bydd atebolrwydd dros gyflawni'n cael ei fonitro?
- Mae'r Bwrdd wedi mynegi pryder bod perygl i'r cynllun rhyddhau'n gynnar, a roddwyd ar waith yn wreiddiol fel mesur brys i fynd i'r afael â gorlenwi carchardai, ddod yn arfer safonol. Mae'r nifer sylweddol o garcharorion sy'n cael eu rhyddhau wedi arwain at drosiant cyson o garcharorion yn CEF Prescoed, wrth i ymdrechion barhau i gynnal capasiti. O ganlyniad, yn aml nid oes gan unigolion sy'n mynd i mewn i sefydliadau categori D ddigon o amser ar ôl ar gyfer adsefydlu ystyrlon drwy ryddhau ar drwydded dros dro (ROTL), sef un o brif gryfderau carchar agored yn draddodiadol. Pa ymrwymïadau penodol y bydd y Gweinidog yn eu gwneud ynghylch rôl carchardai agored categori D yn y dyfodol, a sut y bydd uniondeb eu pwrpas adsefydlu yn cael ei ddiogelu?
- Mae'r Bwrdd wedi nodi cynnydd yn yr amser cyfartalog sydd ei angen i gyflawni rhyddhau ar drwydded dros dro yn ystod y cyfnod adrodd ac mae'n cydnabod cyfranogiad nifer o asiantaethau allanol yn y broses hon. Pa strategaethau sydd ar waith i fynd i'r afael â'r heriau hyn a lleihau'r amser sydd ei angen i sicrhau rhyddhau ar drwydded dros dro yn CEF Prescoed a charchardai eraill yn yr ystâd agored? Ar ben hynny, sut bydd cynnydd yn cael ei fonitro i sicrhau bod y mesurau hyn yn cyflawni gwelliannau mesuradwy?

I'R GWASANAETH CARCHARDAI

- Mae'r boblogaeth sy'n heneiddio yn CEF Brynbuga yn cyflwyno sawl her. Bydd y galw cynyddol am ofal iechyd cyffredinol a lliniarol yn golygu bod angen adnoddau a chyllid ychwanegol, megis ehangu gwasanaethau ar benwythnosau a dyrannu mwy o staff i weithredu fel hebryngwyr ysbytai. Ar ben hynny, nid yw'r seilwaith presennol yn CEF Brynbuga yn addas iawn ar gyfer anghenion unigolion hŷn. Pa fesurau penodol sy'n cael eu hystyried i fynd i'r afael â'r materion hyn? Sut bydd y cynlluniau hyn yn sicrhau bod y carchar yn gallu diwallu anghenion cymhleth y demograffig hwn yn y tymor canolig i'r tymor hir?
- Mae'r Bwrdd wedi sylwi, oherwydd strategaethau sydd â'r nod o leihau gorlenwi, bod proffil carcharorion yn CEF Prescoed wedi newid, ac nad oes

gan rai carcharorion ddigon o amser cyn eu rhyddhau i gael eu rhyddhau ar drwydded dros dro. Yn ogystal, mae'r sefyllfa hon yn gofyn am gynnig mwy o weithgareddau pwrpasol. Beth yw'r cynlluniau a'r adnoddau penodol sy'n cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r heriau hyn?

- Mae gan y Bwrdd bryderon nad oes digon o ffonau yn CEF Prescoed ac nad oes ganddynt breifatrwydd i'r carcharorion. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i ddatrys y materion hyn a beth yw'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer eu cwblhau?

3.3 Ymateb i'r adroddiad blaenorol

Mater a godwyd	Ymateb a roddwyd	Cynnydd
I'r Gweinidog		
Croesawodd y Bwrdd y gostyngiad yn nifer y carcharorion IPP, o 14 i 10, yn ystod y cyfnod adrodd ac mae'n ymwybodol o'r fframwaith deddfwriaethol. Fodd bynnag, rydym yn dal yn bryderus ynghylch y diffyg ail-gategoreiddio carcharorion IPP. Beth yw cynlluniau'r Gweinidog ar gyfer y grŵp hwn o garcharorion?	Canolbwyntio ar symud carcharorion IPP priodol i amodau agored, gyda phenderfyniadau'n cael eu gwneud yn gyflym ac yn effeithiol. Cyhoeddwyd cynllun gweithredu ar 15 Tachwedd 2024, yn canolbwyntio ar ddarpariaeth a chymorth rheng flaen effeithiol ar ôl rhyddhau. (e.e. Seicolegwyr Cynorthwyol, gwasanaethau seicoleg).	Ar ddechrau'r cyfnod adrodd: 10 carcharor IPP; diwedd y cyfnod adrodd: 11. (Pump yn CEF Prescoed, ac mae un ohonynt ar fin cael ei ryddhau; chwech ym Mrynbuga, ac mae un ohonynt hefyd ar fin cael ei ryddhau.)
Mae'r Bwrdd yn cydnabod y pwysau sydd ar fyrddau parôl ond mae'n dal yn bryderus am yr effaith sylweddol ar garcharorion. Sut mae'r Gweinidog yn bwriadu lleihau'r oedi wrth gynnal byrddau parôl?	Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF [HMPPS] wedi cymryd nifer o gamau i leihau'r pwysau ar y ciw rhestru. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad o bron i 40% ers mis Mawrth 2023.	Mae gwelliannau wedi bod yn amlwg.
Mae gan y Bwrdd bryderon ynghylch y cynnydd yn nifer y carcharorion sydd â symudedd cyfyngedig ac anableddau eraill. Mae'r Bwrdd yn cydnabod y gefnogaeth i'r carcharorion hyn gan yr Uwch Dîm Rheoli a'r mewnbwn gan y gwasanaethau cymdeithasol i ddarparu cymhorthion. Fodd	Ar gyfer darpariaeth gofal cymdeithasol, mae cydweithio rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Chyngor Sir Fynwy a 0.6 o ofalwr uwch. Mae gofal a chymorth ychwanegol yn cael eu prosesu drwy gais i	Mae pryderon o hyd ynghylch a yw 0.6 o uwch ofalwr yn ddigonol ar gyfer carcharorion hyn. Mae anesmwythyd hefyd ynghylch y diffyg gofal dros y penwythnos.

bynnag, mae pryderon o hyd ynghylch mynediad at gymorth ar gyfer gofal cymdeithasol personol. Sut bydd y Gweinidog yn mynd i'r afael â'r mater hwn?	wasanaeth gofal yn y cartref ehangach yr awdurdod lleol. Hefyd, mae gan garcharorion hawl i hunangyfeirio am asesiad.	
I'r Gwasanaethau Carchardai Mae'r Bwrdd yn bryderus bod nifer y swyddogion prawf yn annigonol. Codwyd hyn mewn adroddiadau blaenorol. Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod prinder cenedlaethol ond mae'n poeni am yr effaith ar staff presennol a charcharorion. Mae'r Bwrdd yn gofyn beth sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r diffyg hwn? Mae colli eiddo carcharorion wrth eu trosglwyddo o garchardai eraill yn dal yn broblem, ac nid yw hynny wedi gwella, er bod adroddiadau'n cael eu gwneud yn rheolaidd ac yn genedlaethol. Mae'r Bwrdd yn bryderus bod y contract presennol ar gyfer trosglwyddo carcharorion yn gwaethygu'r broblem ac nid yw'n ystyried eitemau sydd o werth i'r carcharorion, gan achosi trallod diangen wrth drosglwyddo carcharorion o fewn ystâd y carchardai. Mae'r Bwrdd yn gofyn bod hyn yn cael sylw fel mater o flaenoriaeth. Mae'r Bwrdd wedi nodi cynnydd yn nifer y carcharorion sy'n cael	Yn genedlaethol, mae ymgyrch recriwtio ganolog wedi bod, a welodd gynnydd yn nifer y swyddogion prawf yng Nghymru. Mae'r swyddi gwag wedi cael eu llenwi, ym mis Awst 2024 a mis Medi 2024. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yn ymwybodol o'r problemau o ran defnyddio'r Fframwaith Polisi Eiddo Carcharorion yn ymarferol ac mae'n parhau i edrych ar beth arall y gellir ei wneud yn lleol i wella hyn. Yn ystod y 12 mis diwethaf, ni chafwyd unrhyw gwynion gan CEF Brynbuga na CEF Prescoed mewn perthynas â cholli eiddo a briodolir i gontract PECS [gwasanaeth hebrwng carcharorion i'r ddalfa]. Mae CEF Brynbuga a CEF Prescoed yn	Mae salwch wedi effeithio ar staffio. Mae'r amser cyfartalog i brosesu rhyddhau ar drwydded dros dro wedi cynyddu dros y cyfnod adrodd - mae'r swyddogion prawf cymunedol yn rhan o'r broses hon. Mae'r sefyllfa wedi gwella ac mae nifer y cwynion am eiddo wedi gostwng. Mae'r sefyllfa wedi gwella ac mae nifer y cwynion am eiddo wedi gostwng. Mae'r pryder yn parhau. Mae wedi bod yn amlwg bod

eu trosglwyddo i'r ysbyty, fel cleifion mewnol ac fel cleifion allanol, a'r effaith ar staffio. Oherwydd natur frys yr ymweliadau hyn, mae'r effaith ar nifer y swyddogion sydd ar gael bob dydd wedi arwain at gyfyngiadau symud ychwanegol yn ystod y dydd. Mae'r Bwrdd yn gofyn a yw'r lefel ofynnol o staffio wedi cael ei gynyddu i adlewyrchu hyn?	cydnabod bod cynnydd wedi bod yn y galw am hebryngwyr ysbyty ar fyr rybudd. Mae'r rhain mewn ymateb i angen meddygol brys, sy'n cael effaith ar gyflawni'r drefn a gwaith allweddol. Fodd bynnag, mae'r carchardai'n parhau i weithio yn ôl cynllun rheoli'r drefn sy'n ymwneud â'r lefel o staffio y cytunwyd arno ganddynt helpu i liniaru'r effeithiau.	hyn, yn CEF Brynbuga, wedi effeithio ar nifer y swyddfeydd bob dydd ac wedi arwain at gyfyngiadau symud ychwanegol yn ystod y dydd.
Mae'r Bwrdd yn cefnogi cynlluniau'r Uwch Dîm Rheoli ar gyfer absenoldeb wedi'i hebrwng i ddynion a allai fod yn addas i symud ymlaen i amodau agored ond mae'n nodi'r oedi o ran cael cymorth ar gyfer hyn gan arweinydd polisi Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF ar gyfer rhyddhau ar drwydded dros dro. Mae'r Bwrdd yn gofyn a oes modd cyflymu'r penderfyniad hwn?	Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yn croesawu bod y Bwrdd yn cefnogi cynnig CEF Brynbuga ar absenoldebau wedi'u hebrwng, ac mae sut gellid defnyddio hyn mewn ffordd sy'n seiliedig ar asesiad risg yn cael ei ystyried	Dim cynnydd gweladwy.

Adrannau tystiolaeth 4 – 7

4. Diogelwch

Mae carcharorion yn rhoi gwybod i'r Bwrdd eu bod yn teimlo'n ddiogel. Mae ymosodiadau gan garcharorion ar garcharorion eraill, bwllo a lefelau hunan-niweidio yn parhau i fod yn isel. Nid oes unrhyw ddigwyddiadau difrifol wedi bod yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

4.1 Derbynn a chynefino

O arsylwadau'r Bwrdd, mae proses asesu gefnogol ar gyfer derbyniadau newydd, lle maent yn cael pecynnau gwybodaeth cynhwysfawr. Gwelwyd bod y staff derbyn a'r cynorthwyr (carcharorion dibynadwy sy'n ymgymryd â gwaith i ddarparu gwasanaethau sy'n cyfrannu at redeg y carchar) yn groesawgar. Mae cyfleusterau newydd yn y dderbynfa yn CEF Prescoed, sydd wedi ei wneud yn fwy croesawgar.

Mae proses gynefino gyson, gyda chefnogaeth dda gan gymheiriaid ar y ddau safle.

Mae problemau parhaus o hyd gyda phobl sy'n cyrraedd yn hwyr, yn enwedig ymysg staff gofal iechyd, y mae'n ofynnol iddynt aros ar y safle y tu hwnt i oriau gwaith arferol i asesu pob derbyniad newydd. Mae'r Bwrdd hefyd yn bryderus bod carcharorion weithiau'n cael eu trosglwyddo heb eu meddyginiaeth ar bresgripsiwn.

Mae'r Bwrdd yn poeni am yr oedi cynyddol o ran carcharorion yn gallu cael eu rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL). Mae sesiwn ar gyfer pawb sy'n cyrraedd o'r newydd i reoli disgwyliadau ynghylch rhyddhau ar drwydded dros dro.

4.2 Hunanladdiad a hunan-niwed, marwolaethau yn y ddalfa.

Mae'r Bwrdd yn nodi cyflwyno'r broses ACCT (asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm) yn ystod y flwyddyn adrodd, sydd wedi'i chynllunio i gefnogi carcharorion y nodwyd eu bod mewn perygl o hunanladdiad neu hunan-niweidio. Rydym wedi adolygu'r broses gynhwysfawr o gwblhau dogfennau ACCT ac wedi arsylwi ar lefel y gofal a'r cymorth a ddarperir drwy gydol y broses.

Agorwyd wyth ACCT ym Mrynbuga yn ystod y flwyddyn adrodd, gostyngiad o 38 ers y flwyddyn flaenorol. Agorwyd tri ACCT ym Mhrescoed yn ystod y flwyddyn adrodd, cynnydd o ddau ers y flwyddyn flaenorol.

Cafwyd wyth ddigwyddiad o hunan-niweidio yn CEF Brynbuga, gostyngiad sylweddol o'r 27 yn y flwyddyn flaenorol, a dim un yn CEF Prescoed yn ystod y flwyddyn adrodd.

Bu un farwolaeth yn y ddalfa yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r Bwrdd yn nodi'r gefnogaeth a gynigir i garcharorion a swyddogion yn dilyn marwolaeth yn y ddalfa. Mae cyfle i gynllunio ar gyfer marwolaeth ac angladdau, a gefnogir hyn gan dîm y gaplaniaeth. Ni fu unrhyw hunanladdiadau yn y naill sefydliad na'r llall yn ystod y flwyddyn adrodd.

4.3 Trais a lleihau trais, hunanynysu

Mae nifer y digwyddiadau treisgar yn y ddau sefydliad yn dal yn isel. Yn 2024-2025, adroddwyd 10 ymosodiad ar garcharorion yn CEF Brynbuga, yr un ffigur â'r llynedd. Ni adroddwyd yr un ymosodiad yn CEF Prescoed, o'i gymharu ag wyth yn y flwyddyn flaenorol.

Ni adroddwyd unrhyw ymosodiadau ar staff yn y naill garchar na'r llall.

Fodd bynnag, yn ystod ein sesiynau monitro yn rhan olaf y flwyddyn adrodd, dywedodd aelodau o boblogaeth PCoSO yn CEF Prescoed wrthym eu bod yn cael eu cam-drin yn eiriol. Rhoddwyd gwybod am hyn i'r Llywodraethwr Llywodraethu.

4.4 Defnyddio grym

Mae nifer y digwyddiadau sy'n ymwneud â defnyddio grym yn dal yn arbennig o isel, gyda phum digwyddiad wedi'u cofnodi ym Mrynbuga a thri ym Mhrescoed. Mae hyn yn cyd-fynd â sylw'r Bwrdd bod y berthynas rhwng swyddogion a charcharorion yn dda ar y cyfan. Yn benodol, nid yw chwistrell analluogi PAVA erioed wedi cael ei defnyddio yn y naill sefydliad na'r llall.

4.5 Atal eitemau anghyfreithlon

Roedd cyfraddau profion cyffuriau gorfodol (MDT) cadarnhaol yn isel: 0.99% ym Mrynbuga a 5.35% ym Mhrescoed. Er ei bod yn ymddangos bod defnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn gymharol brin yn y ddau leoliad, mae problemau wedi parhau gyda charcharorion yn cyfnewid neu'n casglu meddyginiaeth bresgripsiwn yn CEF Brynbuga. Yn CEF Prescoed, roedd canfod sylweddau anghyfreithlon yn aml yn gysylltiedig â rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL) ac, o ganlyniad, mae cyfran o garcharorion sy'n dychwelyd o ryddhau ar drwydded dros dro yn cael eu sganio am becynnau mewnol. Mae'r cyfleuster yn gorfodi polisi dim goddefgarwch llym ar ddefnyddio cyffuriau: mae unrhyw garcharor sy'n cael canlyniad positif am gyffuriau Dosbarth A neu B yn cael ei drosglwyddo i garchar caeedig. Yn flaenorol, roedd meddu ar gyffuriau dosbarth B wedi arwain at wrandawiadau disgyblu, a oedd yn aml yn caniatáu i unigolion aros yn CEF Prescoed. Fodd bynnag, oherwydd cynnydd mewn profion cyffuriau positif, penderfynwyd trosglwyddo carcharorion yn ôl i amodau caeedig ar gyfer cyffuriau Dosbarth B. Mae'r newid hwn wedi arwain at ostyngiad yn nifer yr achosion sy'n ymwneud â chyffuriau dosbarth B.

Dychwelwyd cyfanswm o 94 o garcharorion o CEF Prescoed i amodau caeedig, fel arfer yn dilyn torri rheolau a adolygwyd mewn cyfarfodydd amlddisgyblaethol.

5. Triniaeth deg a dyngarol

5.1 Llety, dillad, bwyd

Mae CEF Brynbuga yn adeilad rhestredig Gradd 2, a adeiladwyd yn y 19eg ganrif, gyda chelloedd ar gyfer deiliadaeth sengl. Mae'r celloedd hyn bellach yn cael eu defnyddio'n bennaf ar gyfer deiliadaeth ddeuol, oni bai fod asesiad risg yn dangos bod carcharorion angen un gell.

Mae deiliadaeth ddeuol cell, a adeiladwyd ar gyfer un person yn oes Fictoria, yn golygu bod y celloedd yn gyfyng, ac nad ydynt yn cynnig llawer o breifatrwydd na golau naturiol. Fodd bynnag, maent yn byw mewn amgylchedd gweddus a chefnogol, ac anaml y bydd y carcharorion yn cwyno.

Cwblhawyd rhaglen adnewyddu celloedd, a ddechreuodd yn y flwyddyn adrodd flaenorol, yn ystod y flwyddyn adrodd hon, gan ddarparu gwelyau bync newydd, storio gwell ac amgylchedd cyffredinol gwell. Er bod presenoldeb bynciau yn her i'r genhedlaeth hyn sy'n dioddef problemau symudedd, mae wedi cael ei groesawu gan y carcharorion ac mae'n gwella'r amodau byw. Ychwanegwyd mynediad at ffonau yn y celloedd yn y flwyddyn adrodd flaenorol ac mae hyn yn cael ei werthfawrogi.

Mae gan garcharorion fynediad hawdd at gawodydd a mannau cymunedol, gyda lifft ar y grisiau i gyrraedd y llyfrgell a'r ystafell Cameo (ystafell 'dewch i gwrdd â'ch gilydd'). Mae'r rhai yn gyfleusterau i garcharorion sydd â symudedd cyfyngedig gael cawod yn annibynnol. Mae siop rad yn Cameo, lle gall carcharorion brynu dillad.

O'r hyn rydyn ni wedi'i arsylwi, mae'r carchar yn lân, oherwydd gwaith y cynorthwyr, ac mae balchder ymysg yr adenydd am eu glendid a'u cyflwyniad.

Mae gardd synhwyraidd newydd, sydd wedi cael ei gwerthfawrogi'n arbennig gan garcharorion niwrowahanol.

Agorwyd CEF Prescoed ychydig cyn yr Ail Ryfel Byd. Mae'n garchar agored, gyda blociau llety sy'n amrywio rhwng deiliadaeth sengl neu ddwbl o ran celloedd. Mae cawodydd a thoiledau ym mhob bloc, yn ogystal â cheginau. Ar ben hynny, mae 'podiau' unigol (unedau tai hunangynhwysol dros dro) ar gyfer carcharorion yn y gwaith neu sy'n nesáu at ddiwedd eu dedfryd. Mae ceginau ar wahân yn cynnal y podiau, er nad yw'r rhain yn cael eu cynnal a'u cadw cystal yn aml. Mae prosiect i adeiladu 80 o gelloedd defnydd cyflym ychwanegol wedi cael ei ohirio, oherwydd bod y cwmni adeiladu yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr.

Ym marn y Bwrdd, mae'r blociau llety'n weithredol, er bod rhai mewn cyflwr llai na delfrydol. Mae glendid cyffredinol yn foddhaol, ond mae carcharorion yn dweud nad oes digon o ddeunyddiau glanhau. Dim ond hyn a hyn o gyfleusterau ar gyfer paratoi bwyd sydd ar gael. Mae'r Bwrdd yn croesawu gwelliannau parhaus: mae pob uned yn cael ei phaentio ac mae cawodydd a thoiledau yn cael eu hailwampio, a disgwylir cwblhau hyn erbyn dechrau 2026, ac mae cynlluniau i uwchraddio ceginau, gan gynnwys cyfleusterau hunanarlwyo. Mae setiau teledu newydd wedi cael eu gosod,

Mae'r Bwrdd wedi derbyn cwynion am y cyfleusterau ffôn yn CEF Prescoed, lle mae ffonau wedi'u lleoli yn yr unedau preswyl. Mae ciwiau ar gyfer y ffonau ac, mewn rhai unedau, mae sgysiau ffôn carcharorion yn gallu cael eu clywed. Mae galw sylweddol am ateb gwell, a ffonau yn y celloedd yw'r canlyniad gorau posibl.

O arsylwadau'r Bwrdd, mae'r ardaloedd allanol ar gyfer CEF Brynbuga a CEF Prescoed yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Mae'r ceginau yn CEF Prescoed yn parhau i ddarparu bwyd i'r ddau safle ac maent yn cael eu staffio gan garcharorion sy'n gallu ennill cymwysterau arlwygo. Roedd effaith ar argaeledd gweithwyr oherwydd y cynllun rhyddhau cynnar a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn adrodd.

Yn anochel, mae'r Bwrdd yn derbyn amrywiaeth o sylwadau am fwyd. Dros y cyfnod adrodd, cafwyd 77 o gwynion yn CEF Brynbuga, gyda 46 mewn un mis. Cafwyd 19 o gwynion yn CEF Prescoed. Mae'r rheolwr arlwygo wedi dechrau sesiwn adborth ynghylch y bwyd gyda'r carcharorion yn CEF Brynbuga, sydd wedi cael croeso cynnes. Mae'r Bwrdd wedi arsylwi ar y gwaith o baratoi a gweini bwyd ac mae o'r farn ei fod yn amrywiol, yn cael ei weini'n deg ac o ansawdd rhesymol, yn enwedig gan adlewyrchu faint o fwyd sy'n cael ei gynhyrchu a'r gyllideb sydd ar gael. Mae defnydd da wedi'i wneud o'r ffrwythau a'r llysiau a dyfir ar y safle.

Yn ystod y flwyddyn adrodd flaenorol, cyflwynwyd rhywfaint o baratoi a choginio bwyd i CEF Brynbuga, a chafodd hyn ei ymestyn ymhellach yn ystod y flwyddyn adrodd. Mae hyn yn darparu rhagor o gyfleoedd i garcharorion o ran cyflogaeth ac yn lleihau'r ddibyniaeth ar CEF Prescoed.

Mae carcharorion wedi mynegi pryderon dro ar ôl tro wrth y Bwrdd ynghylch prisiau cynyddol yn y ffreutur (cyfleuster lle gall carcharorion brynu byrbrydau, pethau ymolchi a hanfodion eraill gan ddefnyddio'r arian a ddyrannwyd iddynt), ac maent wedi awgrymu ehangu'r dewis yn CEF Prescoed er mwyn gallu paratoi pecynnau bwyd ar gyfer y rhai hynny sy'n cael eu cyflogi y tu allan i'r carchar.

Mae gan CEF Prescoed bum carcharor IPP (wedi'u carcharu er mwyn diogelu'r cyhoedd), sydd fel arfer yn cael eu lletya yn un o'r ddau dŷ preswyl, sy'n cynnig y llety gorau ar y safle. Yn yr un modd, yn CEF Brynbuga, mae carcharorion IPP wedi'u lleoli yn adain D, ochr yn ochr â 'carcharorion â dedfrydau oes' (dynion sy'n bwrw dedfrydau oes), lle darperir cyfleusterau byw cymunedol a'r llety mwyaf cyfforddus.

5.2 Perthynas staff a charcharorion, gweithwyr allweddol

Mae'r Bwrdd yn parhau i arsylwi perthynas gynhyrchiol a chadarnhaol rhwng staff a charcharorion.

Yn CEF Brynbuga, mae carcharorion yn cael gweithwyr allweddol, ac maen nhw fel arfer yn eu disgrifio fel rhai cefnogol. Fodd bynnag, nid oes gan bob carcharor weithiwr allweddol, oherwydd cyfyngiadau o ran adnoddau. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae mesurau wedi cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod cymorth ar gael pan fo angen. Yn CEF Prescoed, mae swyddogion personol yn cael eu neilltuo i garcharorion, sy'n darparu math mwy cynnil o gymorth.

Gwelwyd bod cyfathrebu rhwng staff a charcharorion yn barchus ac yn gyson. Mae nifer o gyfleoedd i gynrychiolwyr carcharorion gwrdd â rheolwyr i godi materion neu gynnig awgrymiadau. Er enghraifft, cyflwynwyd 'torwyr patrymau' yn y ddau safle yn ystod y cyfnod adrodd i wella'r ffordd yr ymdrinnir â chwynion.

Yn ystod ein hymweliadau monitro, dim ond nifer fach o garcharorion sydd wedi gwneud sylwadau anffafriol am y drefn neu am agwedd swyddogion carchardai.

Mae'r ddau garchar, gan ddilyn safonau amgylchedd galluogi, yn sicrhau bod

cynrychiolwyr carcharorion yn eistedd ar wahanol fyrddau a fforymau sy'n ymwneud â'r drefn ac yn cael eu hannog i chwarae rhan weithredol. Yn ogystal, mae'r Llywodraethwr Llywodraethu wedi cyflwyno cyfarfod 'carcharorion â dedfrydau oes', y mae'n gadeirydd arno, menter sy'n cael ei gwerthfawrogi gan y carcharorion dan sylw.

Mae cyngor y carchar yn parhau i gyfarfod bob mis yn CEF Brynbuga, gan hyrwyddo ymdeimlad cryf o gymuned a datrys problemau ar y cyd. Yn CEF Prescoed, mae'r amllder wedi bod yn fwy amrywiol, oherwydd diffyg ymrwymiad gan y carcharorion, sy'n adlewyrchu'r gymuned sy'n newid yn gyflym.

Mae'r Bwrdd wedi sylwi ar gyfathrebu effeithiol a chefnogaeth i garcharorion sydd ag ACCT ar waith. Mae swyddogion carchar yn dangos pryder tuag at y rhai yr effeithir arnynt, ac mae'n ymddangos bod y cyfarfodydd amlddisgyblaethol yn cael effaith gadarnhaol.

5.3 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae'r Bwrdd yn parhau i arsylwi ar berthynas dda rhwng staff a charcharorion ac mae'n nodi'r ymdrechion a wnaed i gefnogi carcharorion sydd â nodweddion gwarchodedig (sy'n cynnwys, ymysg eraill, oedran, anabledd, hil, crefydd, rhyw ac ailbennu rhywedd), fel y'u diffinnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb. Er bod poblogaeth y carchardai ar draws y ddau sefydliad yn wyn yn bennaf, mae'r boblogaeth ag aelodau amrywiol, gydag integreiddio da a chefnogaeth yn cael ei darparu.

Mae'r Bwrdd o'r farn bod materion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu rheoli'n dda gan y carchar. Mae carcharorion â nodweddion gwarchodedig yn dweud bod eu hanghenion penodol yn cael eu diwallu. Mae'n ymddangos bod y carcharorion yn cael digon o wybodaeth am y broses ar gyfer mynegi pryderon ac mae ffurflenni adrodd am ddigwyddiadau gwahaniaethu (DIRF) ar gael yn rhwydd yn y ddau safle. Mae carcharorion yn parhau i roi gwybod i'r Bwrdd eu bod yn teimlo'n ddiogel.

Mae'r holl staff yn cael hyfforddiant rheolaidd ac mae'n ymddangos eu bod yn gyfarwydd â'r Ddeddf Cydraddoldeb ac anghenion carcharorion. Mae'r Bwrdd yn nodi bod digwyddiadau codi ymwybyddiaeth rheolaidd, gydag arddangosfeydd a llenyddiaeth ar gael mewn gwahanol ieithoedd ar amrywiaeth o bynciau. Mae hyn yn cynnwys crefydd, LHDTG+, dementia, iechyd meddwl ac ymwybyddiaeth o anabledd, Mis Hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr a Diwrnod Atal Hunanladdiad y Byd.

Mae carcharorion yn cymryd rhan yn y fforymau chwarterol sy'n ymwneud â nodweddion y Ddeddf Cydraddoldeb.

Mae'r adran addysg yn CEF Brynbuga yn cynnwys ystafell synhwyaidd. Yn ddiweddar, maen nhw hefyd wedi creu gardd synhwyaidd, sy'n cynnwys elfen ddŵr sydd wedi'i dylunio i hyrwyddo ymwybyddiaeth ofalgar a llesiant.

Mae digwyddiadau thematig sy'n dathlu ffydd, niwroamrywiaeth a rhywioldeb. Mae enghreifftiau nodedig yn cynnwys Ramadan, ADHD (anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd) ac ymwybyddiaeth o awtistiaeth, Mis Pride, a misoedd treftadaeth Sipsiwn a Romani, ac mae pob un ohonynt yn cael cefnogaeth dda.

Mae'r Bwrdd yn gwerthfawrogi ymdrechion y ddau reolwr cymorth niwroamrywiaeth. Maent yn nodi carcharorion sydd ag anghenion ychwanegol, megis ADHD,

dyslecsia, anhwylder ar y sbectrwm awtistig, anafiadau i'r ymennydd ac anableddau dysgu.

Mae CEF Brynbuga yn cynnig nifer o grwpiau cymorth unigryw ar gyfer unigolion niwroamrywiol, gan gynnwys crosio, ioga, cŵn therapi, pêl-droed a gweithgareddau yn y gampfa. Mae llawer o gyfranogwyr yn defnyddio 'pasbort' sy'n rhoi manylion am eu niwroamrywiaeth penodol, ei effeithiau, a'r dulliau cyfathrebu sy'n cael eu ffafrio. Mae'r Bwrdd wedi nodi canlyniadau cadarnhaol o'r pasbortau hyn yn CEF Brynbuga.

Yn CEF Prescoed, mae'r cymorth yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu cymorth ymarferol er mwyn i unigolion allu elwa o'r gwahanol gyfleoedd sydd ar gael. Mae'r rhain yn cynnwys cael eu rhyddhau ar drwydded dros dro, dod o hyd i waith allanol, cael mynediad at opsiynau swyddi ar y safle neu ar y fferm, a mynd ar drywydd cyfleoedd addysgol.

Yn CEF Brynbuga, mae tua 80 o unigolion niwrowahanol, ac mae gan saith ohonynt ddiagnosis ffurfiol. Yn CEF Prescoed, mae tua 65 o unigolion niwrowahanol.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, cyflwynwyd 14 DIRFS, o'i gymharu â 26 yn 2023-2024 a 34 yn 2022-2023.

Mae 77 o ddynion ag anabledd cofrestredig yn CEF Brynbuga a 107 yn CEF Prescoed.

5.4 Ffydd a chefnogaeth fugeiliol

Mae amrywiaeth o ffydd a chredoau ymhlith y carcharorion. Mae'r rhain yn cynnwys Bwdhaeth, Iddewiaeth, Hindŵaeth, Sikhiaeth, Islam, Paganïaeth, Tystion Jehofa a mathau amrywiol o Gristnogaeth. Mae'r Bwrdd yn croesawu darparu cymorth sesiynol ar gyfer anghenion ysbrydol carcharorion i adlewyrchu'r ystod eang hon.

Mae tîm y gaplaniaeth yn CEF Brynbuga yn croesawu pob carcharor i'r capel a'r ystafell aml-ffydd, beth bynnag fo'u cred. Mae amserlen wythnosol yn dechrau gyda gweddi foreol ddyddiol ac mae'n cynnwys gweithgareddau crefyddol, ysbrydol a myfyriol amrywiol, ynghyd â sesiynau llesiant, gan gynnwys y grŵp cerddoriaeth iechyd meddwl, ymarfer yr organ a'r côr, a sgysiau Cymraeg.

Mae amrywiaeth eang o wyliau crefyddol yn cael eu dathlu. Mae'r rhain yn aml yn galw am ddiwygio'r drefn a'r ddarpariaeth prydau bwyd, sy'n cael ei gwerthfawrogi gan y carcharorion.

Mae'r caplan yn ymwneud â sawl agwedd ar fywyd carcharorion, megis cefnogi carcharorion ar ACCT. O arsylwadau'r Bwrdd, mae materion ffydd a bugeiliol yn rhan annatod o waith yr Uwch Dîm Rheoli.

Pan fydd marwolaeth yn y ddalfa, mae'r caplan yn cynnig cymorth i deuluoedd i drefnu angladdau neu bydd yn trefnu'r angladd mewn achosion lle nad oes aelodau o'r teulu i wneud hynny. Mae gwasanaethau coffa yn cael eu cynnal yn CEF Brynbuga ar gyfer carcharorion a staff, yn dilyn marwolaeth carcharor.

Mae'r caplan yn gweithio gyda'r elusen Age Cymru i gynnig cymorth gydag ysgrifennu ewyllysiau a chynllunio ar gyfer diwedd oes.

5.5 Cwynion

Mae'r Bwrdd yn monitro sut mae cwynion yn cael eu rheoli ac mae wedi sicrhau

bod carcharorion yn cael gwybod am y weithdrefn. Mae ffurflenni cwyno (COMP 1 a 2) a gwybodaeth berthnasol ar gael yn y ddau safle.

O'r hyn rydyn ni wedi'i arsylwi, rydym o'r farn bod y broses yn cael ei rheoli'n dda, gydag ymatebion yn barchus ac yn amserol ar y cyfan. Fodd bynnag, mae pryder o hyd ynghylch prydlondeb ymatebion i gwynion sy'n gysylltiedig â sefydliadau eraill. Mewn achosion lle ceir oedi, mae carcharorion yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am statws eu cwynion yr ôl y sôn.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cyflwynwyd cyfanswm o 471 o gwynion ar draws y ddau sefydliad (371 yn CEF Brynbuga; 84 yn CEF Prescoed), sef y nifer isaf a gofnodwyd dros y pedair blynedd diwethaf. Mewn cymhariaeth, cafwyd 583 o gwynion yn 2023-2024, 689 yn 2022-2023, a 483 yn 2021-2022.

5.6 Eiddo

Mae'r Bwrdd wedi nodi gostyngiad sylweddol mewn cwynion sy'n ymwneud ag eiddo (COMP 1 a 2). Yn CEF Brynbuga, gostyngodd nifer y cwynion o 54 yn 2023-2024 i 15 yn y flwyddyn adrodd, ac yn CEF Prescoed, gostyngodd nifer y cwynion o 27 yn 2023-2024 i chwech dros yr un cyfnod. Mae'r gostyngiad cyffredinol hwn o 50 o gwynion yn adlewyrchu gwelliant sylweddol o ran prosesau a chanlyniadau rheoli eiddo. Byddwn yn parhau i fonitro'r maes hwn dros y flwyddyn nesaf i sicrhau cynnydd parhaus.

6. Iechyd a llesiant

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn darparu'r holl wasanaethau iechyd ar gyfer CEF Brynbuga a CEF Prescoed. Maen nhw'n rheoli'r adran gofal iechyd yn uniongyrchol, gan gynnwys gwasanaethau nyrsio, fferylliaeth ac iechyd meddwl. Mae'r bwrdd iechyd hefyd yn darparu gwasanaethau ysbyty i gleifion mewnol ac allanol y mae carcharorion yn eu defnyddio. Mae'r Bwrdd yn croesawu'r ffaith bod nyrsys dan hyfforddiant yn parhau i gael eu lleoli yn y carchar.

Mae'r bwrdd iechyd yn dyfarnu ac yn monitro contractau ar gyfer contractwyr annibynnol, gan gynnwys gwasanaethau meddygol cyffredinol, gwasanaethau deintyddol cyffredinol a gwasanaethau optometreg cyffredinol. Nid oes gan y Bwrdd Monitro Annibynnol unrhyw bryderon ynghylch amseroedd aros ar gyfer y gwasanaethau hyn.

Bu'r pennaeth gofal iechyd ymddeol ym mis Mawrth 2025. Mae aelod presennol o staff wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb. Mae lefelau staffio ar draws gofal iechyd wedi gwella ers yr adroddiad diwethaf, ac mae'r Bwrdd yn croesawu'r adborth gan garcharorion ynghylch y gwasanaeth, sy'n gyson dda.

Mae'r Bwrdd yn nodi cefnogaeth yr Uwch Dîm Rheoli i'r gwasanaeth gofal iechyd a'r cyfathrebu cadarnhaol a'r gweithio integredig ymysg staff gofal iechyd, y caplan a swyddogion carchardai.

6.1 Gofal iechyd cyffredinol

Mae'r gwasanaeth gofal iechyd yn bennaf yn ofal sylfaenol ac mae'n gweithredu rhwng 8am a 4.30pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener, yn y ddau safle. Mae'r Bwrdd yn nodi bod hyn yn cael ei ymestyn yn CEF Prescoed, tan 7pm bob yn ail ddydd Mercher, i gynnig apwyntiadau rheolaidd i'r carcharorion sy'n gweithio oddi ar y safle. Y tu allan i'r oriau hyn, mae carcharorion sy'n dweud eu bod yn sâl yn cael cymorth drwy 111 neu'n cael eu cludo i adran damweiniau ac achosion brys ysbyty'r GIG.

Mae deintydd ar y safle ddau ddiwrnod yr wythnos a therapydd deintyddol un diwrnod yr wythnos, yn yr ystafell deintyddol yn CEF Brynbuga. Mae carcharorion o'r ddau safle yn dod i gael y gwasanaethau hyn. Anogir dynion i fynd at eu deintydd lleol pan fyddant yn cael eu rhyddhau ar drwydded dros dro. Mae gan garcharorion fynediad at y gwasanaeth deintyddol brys y tu allan i'r oriau hyn.

Mae pob dogfen ACCT yn cadarnhau cyfranogiad llawn gyda staff gofal iechyd ar gyfer adolygiadau.

Yn ystod y cyfnod adrodd, fel yn y flwyddyn flaenorol, cyrhaeddodd nifer o dderbyniadau newydd yn hwyr yn y prynhawn, weithiau heb eu meddyginiaeth ar bresgripsiwn ac weithiau'n sâl. Mewn achosion o'r fath, cawsant eu trosglwyddo i Ganolfan Iechyd Malpas Brook neu i ysbyty lleol.

Mae'r Bwrdd wedi nodi cynnydd yn nifer y carcharorion sy'n cael eu trosglwyddo i'r ysbyty, fel cleifion mewnol ac fel cleifion allanol. Mae'n ofynnol i swyddogion carchar hebrwng y carcharorion hyn ac aros gyda nhw fel arfer drwy gydol eu harhosiad yn yr ysbyty.

6.2 Gofal iechyd corfforol

Mae'r adran gofal iechyd yn cynnig gwasanaeth gofal sylfaenol llawn, gyda

charcharorion yn cael archwiliadau iechyd cynhwysfawr rheolaidd ac yn cael cynnig triniaeth a chymorth lle nodir hynny. Mae carcharorion yn cael eu hannog yn frwd i gymryd rhan mewn rhaglenni sgrinio cenedlaethol, gan gynnwys y rhai ar gyfer hepatitis B ac C a sgrinio'r coluddyn.

Mae'r adran yn annog pawb i gael eu himiwrneiddio ac mae wedi hyrwyddo pigiadau atgyfnerthu Covid, ymgyrchoedd niwmococol a fflw a mynediad hawdd i garcharorion sy'n gweithio y tu allan i'r carchardai.

Mae'r nifer sy'n cymryd y brechiadau sydd ar gael ar gyfer Covid a'r fflw wedi gostwng, fel sy'n cael ei adlewyrchu yn y gymuned ehangach. Cynigir profion blynyddol i newydd-ddyfodiaid yn y ddau garchar ar gyfer feirysau a gludir yn y gwaed, a'r nod yw dileu hepatitis B ac C. Cynigir y brechiad RSV (ar gyfer feirws anadlol cyffredin) i bobl dros 75 oed. Cynhaliwyd prosiect peilot petruster brechu yn CEF Prescoed, sydd bellach yn safle sy'n cynnal y gwaith hwn.

Mae'r Bwrdd hefyd yn nodi'r wybodaeth hybu iechyd a'r cymorth sydd ar gael i garcharorion ar y ddau safle.

Mae'r Bwrdd yn poeni am y galw cynyddol ar yr adran gofal iechyd oherwydd proffil oedran cynyddol poblogaeth y carchardai. Mae 115 o garcharorion dros 50 yn CEF Brynbuga a 37 yn CEF Prescoed. Yn ogystal â hyn, mae nifer sylweddol o garcharorion sydd wedi'u cofrestru'n anabl. Mae gan y carcharorion hyn anghenion iechyd cynyddol, gan gynnwys dirywiad gwybyddol, sy'n cynyddu nifer a hyd yr ymgynghoriadau â staff. Bydd hyn, a'r cynnydd sydd wedi'i gynllunio mewn capasiti gweithredol (uchafswm y carcharorion y gellir eu dal heb risg ddifrifol i ddiogelwch, diogeledd, trefn dda a rhedeg y drefn arfaethedig yn briodol) yn CEF Prescoed, angen adolygiad o'r lefel ofynnol o staffio a'r gofod ymgynghori.

Mae Gwrandawyr Profiadol, sydd wedi'u hyfforddi a'u cefnogi gan y Samariaid, ar gael i bob carcharor

6.3 Iechyd meddwl

Mae'r gwasanaeth iechyd meddwl yn cael ei darparu pedwar diwrnod yr wythnos, ar gyfer y ddau safle, a gwneir hyn drwy rannu swydd rhwng nyrs seiciatrig a therapydd galwedigaethol. Yn ystod y flwyddyn adrodd, adolygwyd y lefel ofynnol o staffio gan y Bwrdd iechyd ond ni chafodd ei gynyddu, a oedd yn peri pryder i'r Bwrdd. Caiff carcharorion eu cyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl gofal eilaidd, lle bo angen.

6.4 Gofal cymdeithasol

Mae proffil oedran y carcharorion yn y ddau garchar yn parhau i godi. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r llety yn y ddau safle yn arwain at anawsterau i garcharorion sydd â symudedd cyfyngedig.

Mae CEF Brynbuga yn sefydliad hŷn ac nid yw'n addas i'r rhai hynny sydd â phroblemau symudedd. Mae'r addasiadau yn gyfyngedig, a dim ond lifft grisiau sydd ar gael. Mae deiliadaeth ddwbl mewn celloedd yn cyfyngu ar le ar gyfer canllawiau neu nodweddion cymorth eraill, ac nid yw carcharorion hŷn yn gallu cael i'r gwely bync uchaf.

Mae rhywfaint o bryder ynghylch anghenion gofal corfforol carcharorion hŷn a sut mae'r rhain yn cael eu diwallu, gyda mewnbwn gofal cymdeithasol cyfyngedig yn ôl pob golwg.

Mae'r Bwrdd yn croesawu cynllun yr Uwch Dîm Rheoli ar gyfer ad-drefnu llety yn CEF Prescoed i ddarparu gwell cyfleuster i'r rhai hynny sydd â symudedd cyfyngedig ac anabledau eraill. Disgwylir i'r gwaith hwn ddechrau yn 2026.

Mae ystafelloedd Cameo (ystafelloedd 'dewch i gwrdd â'ch gilydd'), ar gyfer carcharorion hŷn, wedi hen ennill eu plwyf ar y ddau safle ac mae'r carcharorion yn eu gwerthfawrogi. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu rhedeg gan Fyddin yr Iachawdwriaeth ac maent yn ymateb i anghenion y grŵp hwn o garcharorion, gan ddarparu cymorth cyson. Mae'r Bwrdd yn nodi'r amrywiaeth o weithgareddau i ddarparu cymorth a hamdden i garcharorion ar ôl iddynt gyrraedd oed ymddeol. Rydym hefyd yn nodi'r estyniad o gymorth i'r rhai hynny sy'n bwrw dedfrydau oes, carcharorion IPP a chyn-filwyr drwy glybiau brecwast misol, gyda siaradwyr gwadd, a gynhelir yn ystafelloedd Cameo. Mae ystafell Cameo ym Mhrescoed wedi symud i gyfleusterau mwy, gyda rhai cyfleusterau arlwy, peiriant ffrio aer a phlât poeth.

Mae tîm o 'gyfeillion' (cefnogwyr cymheiriaid) wedi cael ei hyfforddi gan Gyngor Sir Fynwy i ddarparu cymorth i garcharorion sydd â symudedd cyfyngedig. Er nad yw hyn yn darparu gofal personol, mae'r gwasanaeth hwn yn helpu gyda symudedd cyffredinol a chasglu pryddau bwyd, ac ati. Mae'r carcharorion yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth hon.

Mae'r Bwrdd yn poeni am ddarparu gofal personol i garcharorion sydd â heriau gwybyddol neu heriau o ran symudedd, gan fod ein trafodaethau gyda dynion mwy bregus yn dangos mai ychydig iawn sy'n gallu cael gafael ar gymorth o'r fath.

Mae gan garcharorion fynediad at asesiad therapi galwedigaethol ar gyfer darparu unrhyw gymhorthion sydd eu hangen arnynt ar gyfer bywyd bob dydd. Fel arfer, mae'r rhain yn cael eu darparu gyda chyn lleied o oedi â phosibl. Mae'r Bwrdd yn nodi bod y swydd ffisiotherapydd a ariennir ar y cyd wedi cael ei thynnu'n ôl, sy'n peri pryder. Erbyn hyn, dim ond drwy apwyntiadau ysbyty cleifion allanol y mae ffisiotherapi ar gael, sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar adnoddau ac sy'n gallu amharu ar y drefn ddyddiol.

6.5 Amser allan o'r gell, y drefn

Mae'r Bwrdd yn canmol trefn CEF Brynbuga, sy'n cynnwys cyfnodau hir o gymdeithasu ac amser allan o'r gell. O'r hyn rydyn ni wedi'i arsylwi, mae'r Llywodraethwr a'r Uwch Dîm Rheoli yn canolbwyntio ar wneud y mwyaf o hyn.

Yn ystod yr wythnos, mae carcharorion yn cael 10 awr a mwy o amser allan o'r gell, er bod hyn yn llai ar benwythnosau. Mae'r Bwrdd yn deall mai hwn yw un o'r ffigurau gorau yn y DU, sy'n rhagorol ac yn cael ei werthfawrogi gan y carcharorion.

Yn CEF Brynbuga, mae 91.62% o garcharorion yn cymryd rhan mewn gweithgarwch pwrpasol, ac mae'r ffigur hwn yn 96.92% ar gyfer CEF Prescoed.

Gall pob carcharor gymryd rhan mewn rhyw fath o weithgarwch corfforol. Mae hyn yn cynnwys chwaraeon tîm megis pêl-droed, rygbi a phêl foli. Mae gan CEF Prescoed dîm sy'n cystadlu yn y gynghrair bêl-droed leol. Mae'r hyfforddwyr addysg gorfforol wedi bod yn llwyddiannus wrth estyn allan at y carcharorion hynny sy'n llai egnïol, sydd ag anabledau corfforol, sy'n niwrowahanol ac y rhai hŷn. Nid yw'r contract hyfforddi gyda Chlwb Rygbi Dreigiau Casnewydd wedi cael ei gadw.

Mae digon o offer yn y gampfa ar y ddau safle, gydag amserlenni ar gyfer gwahanol grwpiau o garcharorion. Mae lefelau cymryd rhan yn debyg ar y ddau safle.

Mae'r Bwrdd yn nodi bod rhai carcharorion yn CEF Prescoed wedi dweud nad oes llawer i'w wneud ar wahân i fynd i'r gampfa a'u bod yn teimlo bod diffyg gweithgareddau hamdden ar gael pan nad ydynt yn gweithio.

6.6 Camddefnyddio cyffuriau ac adsefydlu

Nododd y Bwrdd fod y strategaeth cyffuriau, sy'n canolbwyntio ar gyfyngu ar y cyflenwad, wedi'i gwreiddio gan leihau'r galw a meithrin adferiad. Anogir dull gweithredu carchar cyfan i greu amgylchedd cefnogol, ynghyd â'r compactau (contractau) gyda charcharorion ar gyfer byw heb sylweddau dan gymhelliant (ISFL).

Agorodd yr uned Gates yn CEF Prescoed ym mis Medi 2024. Mae hwn yn gweithredu fel adain byw heb sylweddau dan gymhelliant (ISFL), ac adroddir ei bod yn unigryw yn yr ystâd agored. Mae 20 lle, ac mae'n ymddangos bod yr uned yn gweithio'n dda o ran mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau. Mae cryn fewnbwn addysg. Ni chofnodwyd unrhyw fethiannau ers ei agor.

Mae camddefnyddio a'r masnachu anghyfreithlon o gyffuriau ar bresgripsiwn yn dal yn bryder yn CEF Brynbuga. Yn CEF Prescoed, mae camddefnyddio steroidau, pregabalin, alcohol, a sylweddau Dosbarth A a B yn gwaethygu'r sefyllfa o ran cyffuriau.

Mae polisi dim goddefgarwch tuag at gamweddau cyffuriau Dosbarth B wedi'i ailsefydlu, gan y teimlwyd y gellid bod wedi manteisio ar 'oddefgarwch'. Fodd bynnag, caniateir rhywfaint o ryddid asesu. Ers y newid, mae nifer y canfyddiadau canabis ar garcharorion yn dod yn ôl i'r carchar wedi gostwng.

Mae'r elusen Dyfodol wedi parhau i ddarparu gwasanaethau cymorth cyffuriau ac alcohol arbenigol yn y ddau garchar. Maent yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau mewn meysydd megis ymdopi, cymhelliant, nodau a sbardunau. Mae'r rhaglen 'Tuag at Adferiad' yn cael ei gynnig ym Mhrescoed. Mae'r elusen yn darparu gwasanaethau ar draws Carchardai De Cymru ac yn gallu bod yn gysylltiad rhwng y carchardai ac yn ffordd ddefnyddiol o rannu gwybodaeth.

Cynhelir cyfarfod Narcotics Anonymous wythnosol ar-lein ym Mhrescoed

Mae'r Bwrdd yn cefnogi cyflwyno rhaglenni Buvidal i fynd i'r afael â dibyniaeth ar opioidau, gan gydnabod yr heriau logistaidd a'r costau cysylltiedig.

Mae cyfanswm o 76 aelod o staff wedi cael eu hyfforddi i ddefnyddio Naloxone (meddyginiaeth sy'n gwrthdroi gorddos opioid yn gyflym), ac mae pecynnau Naloxone wedi cael eu gosod yn CEF Prescoed. Mae carcharorion sy'n mynd adref yn cael Naloxone i leihau'r risg o orddos yn y gymuned.

Mae profion alcohol yn seiliedig ar wybodaeth ac arsylwadau.

6.7 Sgiliau meddal

Mae'r Bwrdd yn nodi bod perthynas barchus yn gyffredinol ymysg swyddogion carchardai, carcharorion a'u teuluoedd. Mae'r gefnogaeth gan swyddogion i'r diwrnodau teulu (sy'n dod â dynion a'u teuluoedd at ei gilydd y tu allan i'w hawl statudol, fel arfer mewn lleoliadau mwy anffurfiol) ac ymweliadau cymdeithasol Nadolig wedi cael eu gwerthfawrogi gan y teuluoedd a'r carcharorion. Ar ddiwrnod Nadolig y teulu yn CEF Prescoed, cafodd y plant i gyd anrheg (a roddwyd gan Undeb y Mamau) gan Siôn Corn. Tynnwyd lluniau o'r teulu a'u rhoi i'r carcharorion.

Mae sefydlu'r caffi yn y ganolfan ymwelwyr yn CEF Brynbuga wedi cael croeso cynnes. Mae hyn yn galluogi ymwelwyr i rannu prydau poeth neu fyrbrydau gyda'r carcharorion. Mae'r fwydlen yn cael ei hysbysebu'n dda ymlaen llaw. Mae'r caffi hefyd yn darparu'r un gwasanaeth i staff ac ymwelwyr ffurfiol â'r carchar y tu allan i oriau ymweld. Mae'r carcharorion sy'n darparu'r gwasanaeth hwn yn ymddangos yn falch o'r hyn maen nhw wedi'i gyflawni.

Mae'r rhaglen Waliau Anweledig, yn CEF Brynbuga a CEF Prescoed, yn helpu carcharorion i gynnal cysylltiadau teuluol. Gall carcharorion nad ydynt yn cael ymweliad wyneb yn wyneb ofyn am ymweliadau gan y fenter sy'n cael ei harwain gan wirfoddolwyr.

Mae'r ddau garchar yn darparu arddangosfeydd, gwybodaeth ac adnoddau ar lesiant. Mae amrywiaeth o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal ac yn cael eu hysbysebu ar hysbysfyrddau ac yng nghylchlythyrau'r carchar.

Mae ystafelloedd Cameo ar y ddau safle, sy'n cael eu rheoli gan Fyddin yr Iachawdwriaeth. Maent yn darparu cyfleoedd ar gyfer diddanu, cymdeithasu, ymlacio ac addysg, yn enwedig i'r carcharorion mwyaf agored i niwed, ac maent yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Mae hyn bellach yn cynnwys carcharorion IPP a'r rhai hynny sy'n bwrw dedfrydau oes, sydd wedi trefnu rota i gael mynediad at y cyfleusterau golchi dillad yn ystafell Cameo.

7. Cynnydd ac ailsefydlu

7.1 Addysg, llyfrgell

Mae gan y llyfrgell ddigonedd o lyfrau, cylchgronau a DVDs ac mae ganddi ddigon o adnoddau. Mae'r llyfrgellydd wedi gweithio gyda'r elusen Ymddiriedolaeth Shannon i hwyluso clybiau llyfrau misol ar y ddau safle. Mae hyn yn arbennig o boblogaidd yn CEF Brynbuga.

Mae'r cyfleuster addysg yn parhau i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth, yn enwedig o ran sgiliau rhifedd a llythrennedd, gyda chyfle i sicrhau tystysgrifau achrededig. Mae myfyrwyr y Brifysgol Agored yn cael gliniaduron i'w galluogi i barhau â'u hastudiaethau. Mae cyrsiau dysgu o bell yn cael eu sefydlu gan Ymddiriedolaeth Addysg Carcharorion.

7.2 Hyfforddiant galwedigaethol, gwaith

Mae CEF Prescoed yn parhau i fod yn llwyddiannus o ran darparu lleoliadau gwaith i garcharorion, er ein bod yn deall bod hyn yn dod yn fwyfwy anodd. Mae'r arweinwyr cyflogaeth yn y ddau garchar wedi cael llwyddiant sylweddol o ran helpu carcharorion i gael gwaith ar ôl cael eu rhyddhau.

Mae'r Bwrdd yn nodi, ar ddiwedd y cyfnod adrodd, bod 20 o gwmnïau'n cyflogi carcharorion sydd wedi cael eu rhyddhau ar drwydded dros dro.

Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, roedd 91.62% o garcharorion CEF Brynbuga mewn gweithgarwch pwrpasol, gyda:

- 178 mewn cyflogaeth amser llawn
- 36 yn gweithio rhan-amser
- 17 yn ddi-waith

Yn CEF Prescoed, roedd 96.92% o garcharorion mewn gweithgarwch pwrpasol, gyda:

- 175 mewn cyflogaeth amser llawn
- 25 yn gweithio rhan-amser
- 4 yn ddi-waith

Am flynyddoedd lawer, roedd tua 120 o ddynion yn gweithio oddi ar y safle, ar y system rhyddhau ar drwydded dros dro, bob dydd. Yn dilyn pandemig Covid-19, gostyngodd hyn i tua 100 ac mae wedi gostwng ymhellach oherwydd yr hinsawdd economaidd a'r diffyg cyfleoedd cyflogaeth dilynol

Mae ymdrechion parhaus staff y carchar i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyflogaeth a pharatoi carcharorion ar gyfer cyflogaeth yn yr amgylchedd cynyddol heriol hwn wedi gwneud argraff ar y Bwrdd. Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, roedd 70 o garcharorion yn gweithio oddi ar y safle. Mae'r swyddi hyn yn tueddu i dalu'n dda, ac mae llawer yn parhau ar ôl cael eu rhyddhau.

Dylid nodi bod nifer y carcharorion sydd ar gael ar gyfer eu rhyddhau ar drwydded dros dro a gwaith wedi gostwng. Roedd y ddeiliadaeth yn CEF Prescoed yn is drwy'r cyfnod adrodd, oherwydd effaith y cynlluniau rhyddhau cynnar. Ar ben hynny, nid oes gan rai derbyniadau newydd ddigon o amser yn CEF Prescoed cyn eu rhyddhau er mwyn i ryddhau ar drwydded dros dro cael ei brosesu a chael cyflogaeth y tu allan i'r carchar.

Mae lefelau uchel o gyflogaeth yn y carchardai, er bod nifer y carcharorion yn awgrymu y gallai fod 'tangyflogaeth' mewn rhai galwedigaethau a lefelau uchel o waith rhan-amser.

Darperir cyfres o gyfleoedd hyfforddi ac addysg yn CEF Prescoed a Fferm Cilwrgi, gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer wagen fforch godi, hyfforddiant fel gyrwyr JCB a hyfforddiant ar gyfer llwythwr telesgopig. Mae melin lifio fach a thraciau trên wedi'u sefydlu ar gyfer cyfleoedd ychwanegol. Darperir hyfforddiant galwedigaethol hefyd mewn gwaith fferm, garddwriaeth, arlwy, rheoli gwastraff, gosod brics a gwaith thoi. Mae'r profiadau hyn yn cael eu gwella ymhellach drwy gymryd rhan mewn rhaglenni achrededig fel Bwrdd Hyfforddi a Chynghori'r Diwydiant Rheoli Gwastraff (WAMITAB), Cerbydau Nwyddau Trwm, rheoli traffig a gweithredu wagenni fforch godi.

Darperir addysg mewn llythrennedd a rhifedd craidd, gydag asesiadau diagnostig yn cael eu defnyddio'n aml i nodi mannau cychwyn dysgwyr a theilwra'r ddarpariaeth yn unol â hynny. Mae carcharorion hefyd yn cael cyfleoedd i adeiladu ar eu haddysg drwy amrywiaeth eang o gyrsiau, gan gynnwys mynediad at raglenni'r Brifysgol Agored.

Bydd yr uned Pasteureiddio Llaeth arfaethedig yn darparu rhagor o gyfleoedd i garcharorion yn CEF Brynbuga, sy'n aml yn gyfyngedig yn y gwaith y gallant ei sicrhau. Bydd yr uned yn galluogi carcharorion i ennill sgiliau ymarferol mewn cynhyrchu bwyd a hylendid, gan gefnogi adsefydlu a gwella eu cyflogadwyedd ar ôl cael eu rhyddhau.

Yn CEF Brynbuga, mae cymwysterau rheoli traffig a CSCS (Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu) wedi helpu nifer o garcharorion.

Mae rhaglenni adsefydlu penodol y mae'n rhaid i rai carcharorion yn CEF Brynbuga eu cwblhau cyn cael eu hystyried ar gyfer eu rhyddhau neu eu symud ymlaen i amodau agored. Mae lleoedd yn brin, gyda blaenoriaeth yn seiliedig ar yr amser a dreuliwyd yn y carchar a pha mor agos yw carcharor at y dyddiad rhyddhau. Mae hyn yn effeithio ar siawns carcharor o sicrhau lle mewn carchar agored a faint o amser y gall ei dreulio yno.

Mae newid i'r rhaglenni wedi'i gynllunio ar gyfer 2026. Effaith hyn yw bod nifer cyfyngedig o leoedd ar gael erbyn hyn ar y cyrsiau presennol i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau cyn mis Medi 2025. Mae nifer y dynion sy'n ymgymryd â'r rhaglenni ac yn eu cwblhau yn dal yn uchel ac yn unol â thargedau'r carchar.

7.3 Rheoli troseddswyr, camu ymlaen

Roedd 17,009 o gyfnodau rhyddhau ar drwydded dros dro yn ystod y cyfnod adrodd. Cafwyd 16 methiant, oherwydd profion cyffuriau positif neu oherwydd cuddio eitemau anghyfreithlon, ar ôl dychwelyd i'r carchar. Fodd bynnag, mae hyn yn cyfateb i gyfradd llwyddiant o 99.91%. Mae rhyddhau am ddiwrnod ar sail ailsefydlu (RDR) a rhyddhau dros nos ar sail ailsefydlu (ROR) yn digwydd. Roedd 18,542 o gyfnodau rhyddhau ar drwydded dros dro yn y flwyddyn flaenorol, oherwydd y nifer uwch o garcharorion a oedd yn cael eu rhyddhau ar drwydded dros dro, gyda chyfradd llwyddiant o 99.68%.

Mae'r Uned Rheoli Troseddswyr (OMU) yn cynnal sesiynau gyda'r nos ddwywaith yr wythnos ar gyfer carcharorion sy'n gweithio oddi ar y safle ac nad ydynt yn gallu ymgysylltu â nhw yn ystod oriau gwaith rheolaidd. Mae'r rhain yn cael eu

mynychu'n dda gan garcharorion.

Yn y flwyddyn adrodd, mae carcharorion yn aros am 16 wythnos i gael eu rhyddhau ar drwydded dros dro, sydd weithiau'n ymestyn i 20 wythnos. Mae hyn yn achosi cryn rwystredigaeth i'r dynion. Mae staff a rheolwyr yr Uned Rheoli Troseddwyd yn gweithio'n galed i gyflymu'r broses a phennu disgwyliadau carcharorion, ond mae ffactorau allanol na allant eu rheoli.

7.4 Cyswllt â theulu

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn annog cyswllt teuluol ac mae'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer ymweliadau cymdeithasol a diwrnodau teulu drwy gydol y flwyddyn.

Lluniwyd y cynllun 'panda' croesawgar gan swyddog yn CEF Brynbuga ac mae'n cael ei gyflwyno mewn rhannau eraill o ystâd y carchardai. Mae hyn yn darparu amgylchedd croesawgar i blant ifanc o'r porthdy i'r neuadd ymweliadau, gyda murluniau panda ar y waliau a phecynnau gweithgareddau i blant, sy'n cynnwys pandas. Mae'r neuaddau ymweld ar y ddau safle yn lân, yn olau ac yn groesawgar. Yn CEF Prescoed, mae mannau chwarae meddal a gweithgareddau ar gyfer plant o bob oed. Mae amrywiaeth o fwyd a diod ar gael yn y ddwy neuadd ymweld ac mae cefnogaeth ar gael i deuluoedd gan gynrychiolwyr Waliau Anweledig.

7.5 Cynllunio gwaith ailsefydlu

Mae'r hyb ailsefydlu yn darparu cymorth i garcharorion yn ystod y 12 wythnos cyn eu rhyddhau. Maen nhw'n helpu gyda llety, ceisiadau am gyfrifon banc, Credyd Cynhwysol a budd-daliadau anabledd. Ni ddylai unrhyw garcharor cael ei rhyddhau heb lety, er mai dim ond am y 24 awr gyntaf ar ôl ei ryddhau y mae'r cyfrifoldeb hwn yn berthnasol. Roedd rhai carcharorion wedi cael eu rhyddhau'n ddigartref yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r Bwrdd yn dal i boeni am y diffyg llety cynaliadwy i garcharorion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, gan gydnabod, er bod hyn y tu hwnt i gyfrifoldeb uniongyrchol y carchar, ei fod yn effeithio'n sylweddol ar lesiant meddyliol ac yn cynyddu'r risg o aildroseddu.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, mae CEF Brynbuga wedi llwyddo i symud dynion ymlaen o amodau caeedig i amodau agored. Roedd yna achosion unigol o fwlio, ond mae'r rhain wedi cael sylw, ac mae cynigion wedi'u cyflwyno erbyn hyn i gynyddu'r niferoedd hyn.

8. Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol

Ystadegau'r Bwrdd

Nifer yr aelodau Bwrdd sy'n cael ei argymhell	15
Nifer yr aelodau Bwrdd ar ddechrau'r cyfnod adrodd	8
Nifer yr aelodau Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd	10
Cyfanswm yr ymweliadau â'r sefydliad	146

Ceisiadau (sylwadau ysgrifenedig carcharorion) i'r Bwrdd Monitro Annibynnol

Cod	Pwnc	Y flwyddyn adrodd flaenorol	Y flwyddyn adrodd bresennol
A	Llety, gan gynnwys golchi dillad, dillad, ymolchi	0	2
B	Disgyblaeth, gan gynnwys dyfarniadau, cynllun cymhellion, sancsiynau	0	-
C	Cydraddoldeb	0	0
D	Gweithgareddau pwrpasol, gan gynnwys addysg, gwaith, hyfforddiant, amser y tu allan i'r gell	4	2
E1	Llythyrau, ymweliadau, ffônau, diogelu'r cyhoedd, cyfyngiadau	2	1
E2	Cyllid, gan gynnwys tâl, arian preifat, gwariant	0	
F	Bwyd a cheginau	1	2
G	Iechyd, gan gynnwys iechyd corfforol, iechyd meddwl, gofal cymdeithasol	1	2
H1	Eiddo yn y sefydliad	0	0
H2	Eiddo yn ystod trosglwyddo, neu mewn cyfleuster arall	2	3
H3	Ffreutur, rhestr cyfleusterau, catalogau	0	3
I	Rheoli dedfryd, gan gynnwys cyrffiw cyfyngu i'r cartref (HDC), rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL), parôl, dyddiadau rhyddhau, ail-gategoreiddio	5	3
J	Pryderon staff/carcharorion, gan gynnwys bwllo	1	4
K	Trosglwyddiadau	1	0
L	Amrywiol	3	2
	Cyfanswm y ceisiadau	20	24

8.1 Sylwadau atodol am geisiadau:

Ers 2019, mae'r Bwrdd wedi adolygu nifer y ceisiadau a gyflwynwyd gan garcharorion. Yn 2023, ail-ymchwiliodd i weld a ddylai'r niferoedd isel parhaus fod yn destun pryder. Roedd y sbectrwm o bosibiliadau a ystyriwyd yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r niferoedd yn awgrymu bod carcharorion yn teimlo bod y berthynas rhwng carcharorion a staff yn foddhaol. Yr awgrym yn yr achos hwnnw yw nad yw carcharorion yn teimlo bod angen cyflwyno ceisiadau ffurfiol.
- Mae'r niferoedd isel yn ddangosydd negyddol, sy'n awgrymu bod

carcharorion wedi ymddieithrio oddi wrth y drefn, yn ofni canlyniadau posibl (megis cael eu symud i garchar arall, er enghraifft) neu'n teimlo mor siomedig ag effeithiolrwydd y Bwrdd, nid ydynt yn trafferthu cyflwyno ceisiadau.

Ein camau gweithredu a'n casgliadau ynghylch ceisiadau:

Mae'r Bwrdd wedi adolygu'r hyn y mae'n ei ystyried yn elfennau allweddol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Y math o berthynas y mae aelodau'r Bwrdd yn arsylwi arni rhwng carcharorion a staff.
- Adborth uniongyrchol gan garcharorion a'u cynrychiolwyr, e.e. Gwrandawyr a chyfeillion.
- Roedd ein hadolygiad o wybodaeth reoli yn ymwneud â dynion wedi dychwelyd i amodau caeedig, yn gysylltiedig â'n harsylwadau ar y safle.
- Er mwyn caniatáu mynediad llawn i broses ymgeisio'r Bwrdd Monitro Annibynnol, mae'r Bwrdd yn derbyn ceisiadau ar lafar.
- Er mwyn cydymffurfio â rheoleiddiad diogelu data cyffredinol (GDPR), mae gan aelodau'r Bwrdd gopiâu sbâr o'r ffurflenni cymeradwy i'r dynion eu llofnodi. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn darllen yr hysbysiad preifatrwydd a'u bod yn ymwybodol ac yn cytuno bod angen i aelodau siarad â staff i brosesu ceisiadau.

Mae'r Bwrdd yn cael sylwadau (cadarnhaol a negyddol) gan y dynion a, phan fo angen, mae'r rhain yn cael eu trosglwyddo i'r Uwch Dîm Rheoli, drwy ein hadroddiadau monitro, i'w trafod gyda'r Llywodraethwr yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Mae'n ymddangos fod hyn wedi lleihau'r angen am geisiadau drwy ddatrys problemau ymddangosiadol yn gynnar.

Awgrymwyd yn **flaenorol** y gallai'r rhai sy'n cyflwyno ceisiadau gael eu 'hanfon ymaith' fel cosb am gwyno. Yn ystod cyfnodau adrodd 2017-2018, 2020-2021 ac, eto, yn 2021-2022, ymchwiliodd y Bwrdd i hyn ac ni chanfu unrhyw gydberthynas rhwng y rhai hynny a oedd yn cyflwyno ceisiadau a'r rhai hynny a oedd yn cael eu symud wedyn i garchardai eraill neu (yn achos Prescoed) dychwelyd i amodau caeedig.

Ni welodd y Bwrdd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r syniad bod y nifer fach o geisiadau a dderbyniwn yn arwydd negyddol. Barn y Bwrdd yw bod carcharorion, ar y cyfan, yn gyfforddus yn cyflwyno ceisiadau ac y bydden nhw'n gwneud hynny pe baent yn teimlo'r angen. Mae carcharorion yn defnyddio system Comp1 y carchar (cwyn gyffredin) ac, ar ben hynny, yn trafod materion sy'n peri pryder gyda'r Bwrdd. **Mae carcharorion bob amser yn fodlon siarad â'r Bwrdd am eu profiadau yn y carchar.** Bydd y Bwrdd yn parhau i adolygu'r sefyllfa hon.

Atodiad A

Darparwyr gwasanaeth

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yw darparwr yr holl wasanaethau iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli adran gofal iechyd nyrsys cofrestredig a'r fferyllydd yn uniongyrchol, ynghyd â gwasanaethau iechyd meddwl ac ysbyty cleifion mewnol ac allanol. Mae'n dyfarnu ac yn goruchwyllo contractau ar gyfer darparwyr annibynnol, gan gynnwys gwasanaethau meddygol cyffredinol, gwasanaethau deintyddol cyffredinol a gwasanaethau optometreg cyffredinol.
- Mae tîm camddefnyddio sylweddau yn cael ei ddarparu gan Dyfodol. Caiff hyn ei ariannu gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF.
- Mae Cyngor Sir Fynwy yn darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol a therapi galwedigaethol.
- Mae Cameo wedi'i sefydlu yn y ddau safle ac fe'i cefnogir gan elusen Byddin yr Iachawdwriaeth.

Atodiad B

Ystadegau hunan-niweidio ac ACCT: ffigurau o 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2025

	2023-2024	2024-2025
Cyfanswm nifer yr achosion o hunan-niweidio	27	8
Nifer yr ACCT: Brynbuga	46	8
Nifer yr ACCT: Prescoed	1	3

Ystadegau ar ymosodiadau: ffigurau o 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2025

	2023-2024	2024-2025
Ymosodiadau ar garcharorion: Brynbuga	10	10
Ymosodiadau ar staff: Brynbuga	0	0
Ymosodiadau ar garcharorion: Prescoed	8	0
Ymosodiadau ar staff: Prescoed	0	0



Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Os ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications>

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom at imb@justice.gov.uk